# Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

1. Cyflwyniad

Mae'r cwricwlwm newydd wrth wraidd y polisi hwn, gan sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ein hysgolion. Gan fod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn statudol i bob ysgol yng Nghymru ers mis Medi 2022, mae'n bwysig bod y polisi yn gosod deilliannau clir i'n hysgolion.

Teimlwn yn gryf fod ein disgyblion yn derbyn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Rydym eisiau sicrhau bod pob disgybl yn ein hysgolion yn derbyn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) effeithiol o ansawdd fel rhan o'u datblygiad personol a chymdeithasol o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6. Rydym eisiau sicrhau bod y cwricwlwm ACRh yn effeithiol wrth gefnogi ein disgyblion i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth sy'n briodol i'w hoedran yn rheolaidd.

Gan fod newidiadau yn digwydd o ran gofynion Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yng Nghymru, ni fydd yn bosibl i rieni wrthod i'w plant gymryd rhan yn y sesiynau oherwydd byddant bellach yn cael eu haddysgu ar draws y chew maes dysgu. Serch hynny, rydym yn sicrhau, fel ysgolion, bod yr addysg a ddarperir i bob disgybl yn briodol yn ddatblygiadol ac yn ystyrlon i'w hoedran.
Mae'r cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a gyhoeddwyd fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru yn amlinellu bod rhaid i ysgolion addysgu o fewn cyd-destun llinynnau dysgu eang a rhyng-gysylltiedig, sef:

- Cydberthnasau a Hunaniaeth
- Iechyd Rhywiol a Lles
- Grymuso, Diogelwch a Pharch

Amcanion

Mae ACRh yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu yn hyderus o blentyndod, drwy'r glasoed, i fod yn oedolyn. Caiff ACRh ei chyflwyno'n bennaf wrth addysgu meysydd dysgu Iechyd a Lles, Gwyddoniaeth a Thechnoleg a'r Dyniaethau.

Mae deilliannau ACRh yn cefnogi disgyblion i:

- Meithrin agweddau a gwerthoedd cadarnhaol sy'n dylanwadu ar eu hymddygiad
- Meithrin y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau cyfrifol a gwybodus ynghylch iechyd a lles, gan gynnwys lles rhywiol
- Ennyn hunan-barch a pharch tuag at eraill
- Gwerthfawrogi amrywiaeth o ran cyfeiriadedd rhywiol a dathlu gwahaniaeth
- Datblygu cydberthnasau llwyddiannus a chadarn
- Gwerthfawrogi pwysigrwydd cydberthnasau personol, cadarn a chariadus
- Deall agweddau corfforol ac emosiynol

Nodau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:

- Deall pwysigrwydd amgylchedd cadarn, diogel a chariadus ar gyfer bywyd personol a theuluol
- Dysgu am amrywiaeth teuluol o fewn cymdeithas
- Deall bod ystod o gydberthnasau a chefndiroedd o fewn cymdeithas
- Dangos sensitifrwydd tuag at bawb a sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei drin/thrin yn annheg oherwydd amgylchiadau domestig
- Dangos sensitifrwydd wrth ddathlu Sul y Tadau/Mamau gan gydnabod bod sefyllfaoedd teuluoedd yn amrywio
- Ystyried anghenion ein dysgwyr wrth gynllunio
- Gwerthfawrogi eu hunain
- Cydnabod a mynegi eu teimladau
- Gwneud ffrindiau a datblygu cydberthnasau cryf
- Deall y rhesymau dros newidiadau corfforol ac emosiynol sy’n digwydd yn ystod y glasoed, gan gynnwys beichiogi, beichiogrwydd a genedigaeth
- Dangos empathi i gydnabod a deall emosiynau eraill
- Pwysigrwydd diogelwch personol – beth dylent ei wneud a phwy dylent fynd atynt er mwyn cael help os na fyddant yn teimlo’n ddiogel

2. Y bwriad yw:

- Defnyddio llais y disgybl wrth gynllunio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
- Trafod cynnwys gyda rhieni a gofalwyr pan gynhelir nosweithiau agored
- Cynnig cymorth i rieni a gofalwyr
- Cyfathrebu fel Clwstwr a gydag YGG Llangynwyd er mwyn sicrhau cysondeb a dilyniant
- Annog plant i ddeall bod staff yn yr ysgolion yn parchu ac yn diogelu eu preifatrwydd

3. Addysgeg:

- Sicrhau amgylchedd cefnogol a diogel
- Cefnogi trafodaethau agored a thrafodaethau nad ydynt yn feirniadol
- Annog cwestiynu agored
- Defnyddio geirfa gywir a phriodol

4. Byddwn yn sicrhau bod ein haddysg yn darparu:

- Mewnbwn eang ar draws y meysydd dysgu

- Gweithgareddau sy'n berthnasol i oedran y disgyblion
- Partneriaethau rhwng holl randdeiliaid yr ysgolion
- Parch ar gyfer pawb
- Ystyriaeth o ran sut i ddiwallu anghenion ein dysgwyr orau, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

5. Gweithgareddau/adnoddau posibl:

- Chwarae rôl
- Defnyddio lluniau a fideos
- Llyfrau
- Ymweliadau gan asiantaethau allanol  e.e. nyrs, heddlu, theatr, elusennau
- Trafodaethau
- Gwaith grwp
- Addysg gorfforol
- Cardiau senario

Byddwn bob amser yn anelu at sicrhau bod ein hadnoddau ar gyfer ACRh yn berthnasol, ag enw da, yn briodol yn ddatblygiadaol, yn gynhwysfawr ac yn sensitif i bob dysgwr. Byddwn yn adolygu'r adnoddau a ddefnyddir gennym yn rheolaidd.

6. Y Pedwar Diben

Wrth i ni baratoi i roi'r cwricwlwm newydd ar waith, defnyddiwn y pedwar diben dysgu fel rhan annatod o'n broses cynllunio ac addysgu. Bydd y sgiliau a'r wybodaeth y bydd ein disgyblion yn meithrin drwy themau ACRh yn datblygu pob agwedd o'r pedwar diben dysgu. Ein nod, gan ddefnyddio ACRh, yw sicrhau ein bod yn datblygu dysgwyr galluog, annibynnol a hyderus sy'n wybodus yn foesol ac yn iach.

Hoffem gadarnhau i ddisgyblion a rhieni/gofalwyr na fydd crefydd nac agweddau personol staff yr ysgol yn dylanwadu ar y modd y caiff Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei haddysgu. Gobeithio y bydd staff yr ysgol a rhieni/gofalwyr yn gallu cydweithio i sicrhau bod negeseuon yn cael eu cyfleu i'n dysgwyr mewn perthynas ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb tra'n bod yn agored wrth ateb cwestiynau'r plant.

Rydym yn annog rhieni a gofalwyr i siarad yn agored gyda'r ysgol a'r athrawon dosbarth mewn perthynas â phynciau a drafodir yn ystod y gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb er mwyn i ni allu ateb unrhyw ymholiadau a allai fod gennych chi.